**Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog**

**Committee for the Scrutiny of the First Minister**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Carwyn Jones AC
Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru

25 Mawrth 2013

Annwyl Brif Weinidog

**Cyfarfod y Pwyllgor ar 27 Chwefror 2013**

Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i chi a'ch swyddogion am ddod i'r sesiwn graffu ar 27 Chwefror, ynghylch gweithrediadau'r Uned Gyflawni a dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran lleihau tlodi plant.

Cododd nifer o faterion yn ystod ein trafodaethau y byddem yn croesawu cael rhagor o wybodaeth ac eglurder yn eu cylch.

**Uned Gyflawni'r Prif Weinidog**

Dywedasoch fod nifer o adegau wedi bod pan oedd yr Uned Gyflawni wedi tynnu eich sylw at faterion penodol, ond nad oedd modd i chi roi rhagor o fanylion yn eu cylch gan nad oeddech am "siarad am fusnes y Llywodraeth yn gyhoeddus". Nodwn eich pryderon, ond heb enghreifftiau, rydym yn ei chael hi'n anodd deall sut y mae'r Uned Gyflawni yn gweithredu, heb sôn am asesu

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA

Clerc/Clerk: Dr Siân Phipps, Ffôn /Tel: 029 2089 8582
E-bost /Email:CraffuPW@cymru.gov.uk

ei heffeithiolrwydd yn y sefyllfaoedd hynny pan na fydd Adrannau'r Llywodraeth yn perfformio cystal.
Nodwyd hefyd yr hyn a ddywedasoch, bod yr Uned yn cael ei beirniadu pan fydd y Llywodraeth yn darparu o ran ei Rhaglen Lywodraethu ar ddiwedd ei thymor. Rydym yn pryderu rywfaint o adael y mater tan ddiwedd y Cynulliad hwn cyn y caiff effeithiolrwydd yr Uned ei werthuso. Credwn y dylid monitro ei pherfformiad yn fwy parhaus ac mewn modd mwy tryloyw.

**Roedd yn ymddangos eich bod yn derbyn yr awgrym o bosibl y byddai'n haws mesur llwyddiant yr Uned Gyflawni pan fyddai'n adnabod unrhyw *ddiffyg* darparu a sut y bydd yn gweithredu yn y sefyllfaoedd hynny. Hoffem pe bai modd i chi ystyried sut y gallwch adrodd wrth y Pwyllgor ar yr agwedd hon ar weithrediad yr Uned fel y gallwn gyflawni ein rôl o graffu ar eich portffolio.**

Roedd gennym ddiddordeb clywed gan yr Ysgrifennydd Parhaol, ei fod ef wedi sefydlu grŵp sydd â'r cyfrifoldeb dros wella gwaith yr Uned Gyflawni a'r pwyslais mawr ar ddarparu o fewn Llywodraeth Cymru. **Byddem yn croesawu cael rhagor o wybodaeth am gyfansoddiad, cylch gwaith a gweithgareddau'r grŵp hwnnw.**

Aethpwyd ymlaen i drafod set sgiliau'r staff yn yr Uned Gyflawni, a dywedwyd wrthym fod y swyddogion hynny wedi'u trwytho mewn gwaith datblygu polisïau. Er ein bod yn gwerthfawrogi pwysigrwydd y ffaith bod gan staff sgiliau datblygu polisïau, credwn fod angen iddynt hefyd ddangos yr hyn y cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Parhaol ato fel cylchoedd polisi *a darparu* (ein pwyslais ni ). **Byddem yn croesawu cael rhagor o wybodaeth am brofiad y staff sy'n gweithio yn yr Uned Gyflawni o ran archwilio a gwerthuso.**

Yn olaf, cawsom drafodaeth eithaf hir ar faint a chymhlethdod adroddiad blynyddol y Rhaglen Lywodraethu, a gaiff ei olygu gan yr Uned Gyflawni. Cytunwn â chi ei bod yn bwysig bod rhanddeiliaid, gan gynnwys ni fel

Pwyllgor, yn craffu'n fanwl ar waith adrannau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw'n eglur i ni sut y mae modd defnyddio'r adroddiad, yn ei ffurf presennol, i "allu gwerthuso ar unrhyw adeg effaith ein polisïau", i ddyfynnu o'ch Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet yn 2011. Nid ydym ychwaith yn glir ynghylch rôl yr Uned Gyflawni o ran penderfynu ar y dangosyddion a'r camau mesur y dylid eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol.

**Efallai mai un ffordd o fesur effeithiolrwydd yr Uned Gyflawni fyddai gweld ei gallu i ddadansoddi a chrynhoi'r adroddiad blynyddol i fformatau haws eu deall. Byddem yn ddiolchgar pe bai modd i chi ystyried hyn a'r pwyntiau eraill a nodwyd yn y paragraff uchod, ac awgrymu'r ffordd orau o'u rhoi ar waith.**

**Tlodi Plant**

Mae lleihau tlodi plant yn un o'r heriau pwysicaf a wynebir yng Nghymru. Er gwaetha'r drafodaeth a gawsom ar y mater, rydym yn bryderus o hyd ynghylch y bwlch sydd yn nhrefniadau mesur a monitro tlodi plant Llywodraeth Cymru, a bu hyn yn wir dros y tair blynedd ddiwethaf.

Soniwyd nad oes gennych unrhyw gynlluniau i newid dulliau Llywodraeth Cymru o fesur tlodi plant ac amlinellwyd bod y dangosyddion blaenorol "fwy neu lai" wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Llywodraethu. Dywedasoch hefyd eich bod wedi gofyn i'r Sefydliad Polisi Newydd edrych ar y strategaeth tlodi plant ac y bydd data newydd a ddarperir yn sgîl ei waith ar gael cyn toriad yr haf.

Credwn fod newidiadau i'r modd y caiff y cynnydd a wneir i drechu tlodi plant ei fesur ers i Lywodraeth Cymru yn 2006 gyhoeddi ei chyfres o 30 dangosydd yn ei dogfen *Dileu Tlodi Plant yng Nghymru – Mesur Llwyddiant* yn arwain at ddiffyg craffu ar berfformiad y Llywodraeth yn y maes hwn.

**Byddem yn croesawu cael rhagor o wybodaeth gennych am a) y rhesymeg dros newid dangosyddion tlodi plant Llywodraeth Cymru ers 2006, (b) y data gan y Sefydliad Polisi Newydd a (c) beth y disgwyliwch y bydd y data hwn yn ei ychwanegu at y trefniadau monitro presennol.**

Roeddem hefyd yn bryderus iawn o'ch clywed yn dweud nad oes gan Lywodraeth Cymru yn syml, yr offer i sicrhau y byddwn yn gallu cyrraedd targedau tlodi plant. **Gwerthfawrogwn fod dileu tlodi plant yn gyfrifoldeb ar y cyd rhwng Cymru a San Steffan, ond nid yw'n gredadwy yn ein barn ni bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio hyn fel alibi ar gyfer darparu mewn meysydd y mae hi ei hun yn gyfrifol amdanynt.**

Siaradwyd am y cynnydd da sy'n cael ei wneud yn yr Alban ac fe'n calonogwyd o glywed y byddwch yn edrych beth sydd wedi'i gyflawni yno a pham bod Llywodraeth yr Alban wedi bod mor effeithiol. **Gwnaethoch gytuno i ysgrifennu atom yn rhoi eich safbwynt ar y mater hwn, ond hoffem pe bai modd i chi gynnal adolygiad mwy trylwyr o esiampl yr Alban, a beth y gallai Cymru ei ddysgu o'r dull gweithredu a ddilynwyd yno. Hoffem hefyd pe bai modd i chi ysgrifennu atom i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y drafodaeth a gafwyd yn y Cyd-bwyllgor Gweinidogion yn ddiweddar.**

Yn fwyaf sylfaenol, trafodwyd bod tlodi plant yn cyffwrdd â chynifer o adrannau a meysydd polisi'r Llywodraeth, a dywedasoch wrthym fod tlodi plant yn cael sylw fel rhan o strategaeth y Llywodraeth o ran tlodi'n gyffredinol. **Nodwn, yn sgîl ad-drefniad y Cabinet yn ddiweddar, fod gan un Gweinidog gyfrifoldeb dros lawer o faterion sy'n gysylltiedig â phlant a hefyd am drechu tlodi, ond rydym am gael sicrwydd bod ffocws polisi penodol ar dlodi plant o fewn portffolio'r Gweinidog. Hoffem pe baech yn galw am osod ail-ffocws pendant ar dlodi *plant*, gyda phenderfynoldeb newydd.**

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich ymateb i'r pwyntiau a nodwyd gennym. Caiff ein llythyr ni a'ch ymateb iddo eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Yn gywir

David Melding AC

Cadeirydd, y Pwyllgor Craffu ar waith y Prif Weinidog